

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Y Gell Cyngor Technegol

## Crynodeb o’r cyngor

18 Medi 2020







OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40655

# Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

18 Medi 2020

## Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

- Mae'r epidemig yn datblygu'n gyflym ledled Cymru a'r DU, sy'n golygu bod amcangyfrifon yn dyddio'n gyflym iawn. Mae consensws bod y sefyllfa'n parhau i fod yn ddifrifol. Mae'r newyddion trist ein bod wedi dechrau cofnodi marwolaethau o COVID-19 yng Nghymru eto yr wythnos hon yn tynnu sylw at y difrifoldeb hwn.

- Mae nifer yr achosion positif fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol dros y pythefnos diwethaf ond nid yw hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau.

- Credwn fod amcangyfrif SAGE o'r rhif R yn is na'r gwir rif R yng Nghymru. Y rheswm am hyn yw bod amcangyfrif SAGE yn seiliedig ar dueddiadau mewn derbyniadau a marwolaethau yn ogystal ag achosion a data arolwg, lle mae oedi cyn eu bod ar gael.

- Efallai y bydd angen pecyn o ymyriadau nad ydynt yn rhai fferyllol ar raddfa leol a chenedlaethol er mwyn dod ag R yn ôl o dan 1. Efallai y bydd angen i rai ymyriadau nad ydynt yn rhai fferyllol fod ar waith am gyfnod hir, er bod ymateb cynharach a mwy cynhwysfawr yn debygol o leihau'r cyfnod amser y mae eu hangen.

- Wrth ail-gyflwyno ymyriadau nad ydynt yn rhai fferyllol, mae angen digon o amser i weld a yw'r ymyriadau hyn wedi bod yn llwyddiannus. Y rheswm am hyn yw bod oedi cyn bod gwybodaeth ar gael am heintusrwydd, datblygu symptomau, y gallu i brofi ac ymddygiad y cyhoedd.

- Mae ymyriadau'n amrywio o ran eu heffeithiolrwydd o ran lleihau trosglwyddiad ac mae ganddynt wahanol fathau a lefelau o niwed yn gysylltiedig â hwy. Mae'n gynyddol bwysig i ystyried y niwed anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â COVID-19.

- Mae fersiwn gyhoeddus yr Achos Gwaethaf Rhesymol (RWC) dros Gymru bellach wedi'i gyhoeddi. Er nad ydym yn disgwyl i'r sefyllfa fod yn gywir o wythnos i wythnos, rydym yn monitro data epidemiolegol yng Nghymru yn erbyn hyn.

- Mae canlyniadau astudiaeth heintiau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos, ar gyfer yr wythnos 30 Awst i 5 Medi, yr amcangyfrifir bod gan 0.05% o'r boblogaeth yn y gymuned yng Nghymru COVID-19. Mae hyn yn cyfateb i tua 1 person ym mhob 2,000, neu gyfanswm o 1,500 o bobl yn ystod y cyfnod hwn. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r ffigurau hyn oherwydd meintiau sampl isel.

- Mae prif ffocws y gweithgarwch diweddar wedi bod yng Nghaerffili, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf gyda safleoedd profi cymunedol symudol wedi'u sefydlu'n ddiweddar a chyfyngiadau ar waith yng Nghaerffili a Rhondda Cynon Taf ar hyn o bryd.

- Mae’r papurau o SAGE a ystyriwyd gan y Gell Cyngor Technegol a'r Grŵp wedi’u cyhoeddi yma: [https://www.gov.uk/government/collections/scientificevidence-supporting-the-government-response-to-coronavirus-COVID19#meeting-minutes-and-supporting-papers](https://www.gov.uk/government/collections/scientificevidence-supporting-the-government-response-to-coronavirus-COVID19#meeting-minutes-and-supporting-papers).

**Cyfradd dwf**

- Mae SAGE yn amcangyfrif bod y gyfradd dwf bresennol rhwng -0.04 a 0.08. Mae cryn ansicrwydd ynghylch y gyfradd dwf wirioneddol ac mae oedi cyn bo'r data ar gael felly gall y cynnydd diweddar mewn achosion gael ei adlewyrchu yn y gyfradd dwf yr wythnos nesaf.

**Rhif atgynhyrchu**

- Yr amcangyfrif diweddaraf o'r rhif atgynhyrchu $R_t$ ar gyfer Cymru gan SAGE yw rhwng 0.7 a 1.2. Dangosir yr amcangyfrif o $R_t$ fel ystod heb amcangyfrif canolog. Mae'r bwlch hyder mawr yn awgrymu lefel uchel o ansicrwydd ynghylch union werth $R_t$.
- Mae nifer yr achosion positif wedi cynyddu yng Nghymru dros y pythefnos diwethaf ond nid yw hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn derbyniadau i’r ysbyty a marwolaethau eto.
- Credwn fod amcangyfrif SAGE o'r rhif R yn is na'r gwir rif R gan ei fod yn seiliedig ar dueddiadau mewn derbyniadau i’r ysbyty a marwolaethau yn ogystal ag achosion a data arolwg, ac mae oedi cyn y bydd pob un o’r rhain ar gael.
- Bydd gwerth $R_t$ cyson o dan 1 yn arwain at leihad mewn achosion a derbyniadau i'r ysbyty, ond bydd gwerth $R_t$ cyson uwch na 1 yn arwain at gynnydd mewn achosion a derbyniadau i'r ysbyty.

**Amcangyfrif Cyfredol o $R_t$ yng Nghymru**

- Mae tystiolaeth bod amrywiadau bychan mewn $R_t$ rhwng gwahanol wledydd y DU. Fodd bynnag, mae mwy o ansicrwydd yn yr amcangyfrifon ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, yn rhannol oherwydd bod niferoedd is o achosion a marwolaethau o'i gymharu â Lloegr.

- Efallai na fydd unrhyw newidiadau o ran trosglwyddo a allai fod wedi digwydd yn y ddwy i dair wythnos ddiwethaf wedi'u hadlewyrchu mewn data clinigol eto, nac ychwaith felly yn yr amcangyfrifon cyfredol o $R_t$.

- Mae tri lleoliad sy'n arbennig o berthnasol i'r sefyllfa bresennol: y gymuned, cartrefi gofal ac ysbytai. Efallai fod mewnforio achosion o wledydd eraill hefyd wedi chwarae rhan mewn trosglwyddiadau diweddar.


**Amser haneru**

- Nid oes amcangyfrifon dibynadwy o amseroedd dyblu/haneru ar hyn o bryd oherwydd nifer isel y derbyniadau i'r ysbyty.

**Glynu at y mesurau presennol a symudedd**

- Mae data diweddaraf IPSOS MORI ar gyfer Cymru yn dangos sefydlogrwydd yn y rhan fwyaf o'r cwestiynau sy'n ymwneud â glynu wrth ymddygiadau lliniaru allweddol. Cynyddodd y ganran a ddywedodd eu bod wedi defnyddio gorchudd wyneb i 71% (roedd yr arolwg yn cwmpasu'r dyddiadau 11 – 14 Medi – gyda gorchuddion wyneb yn orfodol mewn llawer o leoliadau dan do ar 14 Medi).

- Mae'r ffigur isod yn cynrychioli data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg sawl gwlad ar lwyfan Global Advisor. Mae pob un o'r tonnau wedi cynnwys oddeutu 600 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae'r data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru 16-74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/- 4.8 pwynt canran.




- Mae canlyniadau diweddaraf yr [Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau Coronafeirws] yn dangos bod 52% o bobl wedi dod i gysylltiad agos (o fewn 1 metr) gydag o leiaf 3 o bobl o'r tu allan i'w cartref/aelwyd estynedig yn ystod y 7 diwrnod diwethaf. Nododd 40% bod rhywun o'r tu allan i'w haelwyd/aelwyd estynedig wedi bod i'w tŷ yn yr wythnos ddiwethaf a nododd 28% eu bod wedi mynd i un neu fwy o dai eraill yn yr wythnos ddiwethaf (ac eithrio eu haelwyd estynedig). Mae'r rhain yn ganrannau tebyg i ddiwedd mis Gorffennaf.

  - Nid yw data symudedd Cymru a'r DU yn dangos fawr ddim newid ers yr wythnos diwethaf.

  - Yng nghanol mis Ebrill roedd symudedd [defnyddwyr Facebook] yng Nghymru 50% yn is na'r llinell sylfaen, mae hyn 1% yn is na'r llinell sylfaen ac ychydig yn uwch na'r wythnos diwethaf. Mae 22% o ddefnyddwyr Facebook yng Nghymru yn aros yn eu hunfan, yn debyg i'r wythnos flaenorol. Ar ddechrau mis Ebrill roedd tua 45% yn aros yn eu hunfan - roedd hyn tua 18% ar ddechrau mis Mawrth.

  - Mae [data Apple] sy'n dangos ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi gostwng ychydig yn ystod yr wythnos diwethaf. O'i gymharu â'r llinell sylfaen mae'r data'n uwch na'r gwledydd eraill, ond mae'r bwlch wedi lleihau ymhellach yn ystod yr wythnos diwethaf. Nid yw ceisiadau am gyfarwyddiadau cerdded yn dangos unrhyw newid yn ystod yr wythnos diwethaf, tra bod ceisiadau am lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus wedi gostwng.

- Mae data symudedd Google yn dangos cynnydd mewn gweithleoedd yn ystod yr wythnos ddiwethaf (a allai gyd-daro â diwedd gwyliau'r haf yr wythnos flaenorol). Mae manwerthu a hamdden yn dangos gostyngiad, ond yn y rhan fwyaf o gategorïau eraill does fawr ddim newid.

- Ar ôl y cyfnod o gyfyngiadau symud roedd patrymau symudedd yng Nghymru a Lloegr yn weddol debyg. Rhwng canol mis Mai a dechrau mis Mehefin gwelwyd cynnydd mwy mewn symudedd yn Lloegr na Chymru, gyda'r Alban yn dangos patrwm tebyg i Gymru. Yn ystod mis Gorffennaf cynyddodd symudedd yn fwy yng Nghymru nag yn Lloegr a pharhaodd hynny drwy gydol mis Awst. Dangosodd yr wythnos gyntaf ym mis Medi ostyngiadau mewn symudiadau yng Nghymru, gyda'r wythnos ddiweddaraf yn dangos sefydlogrwydd.

- Mae data ffonau symudol dienw ac agregedig gan O2 wedi dangos bod teithiau sy'n dechrau yng Nghaerffili wedi gostwng 8 pwynt canran yn ystod yr wythnos ddiwethaf (hyd at ddydd Mawrth 15), o'i gymharu ag 1 pwynt canran ar gyfer Cymru. Mae data o Google (hyd at 11 Medi) yn dangos gostyngiadau mewn symudedd yng Nghaerffili yn llawer o'r categorïau.

- Mae ffigur 5 isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae’r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y llinell sylfaen yw’r gwerth canolrifol ar gyfer yr un diwrnod o’r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos rhwng 3 Ionawr a 6 Chwefror, 2020.

**Canlyniadau astudiaeth heintio SYG**

- Ar gyfer yr wythnos 04 Medi i 10 Medi, roedd gan gyfartaledd o 0.05% o'r boblogaeth yn y gymuned COVID-19 (cyfwng credadwy 95%: 0.01% i 0.13%).

- Mae hyn yn cyfateb i tua 1 person ym mhob 2,000 (cyfwng credadwy 95%: 1 o bob 8,200 i 1 o bob 800), neu 1,500 o bobl yn ystod y cyfnod hwn (cyfwng credadwy 95%: 400 i 3,900).

- Mae’r data’n awgrymu bod y gyfradd wedi bod yn weddol sefydlog dros y 6 wythnos diwethaf.

- Er bod data profi Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos cynnydd lleol mewn cyfraddau heintio yn rhai mannau yn ddiweddar, nid ydynt yn ddigon arwyddocaol i ddylanwadu ar yr amcangyfrifon ar lefel Cymru a gyflwynir yma. Yn ogystal, mae cyfnod cyfeirio'r CIS tua wythnos y tu ôl i ddata diweddaraf Iechyd Cyhoeddus Cymru.

- Mae cryn ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon a rhoddir cyfyngau credadwy i ddangos yr ystod y gallwn fod yn hyderus bod y gwir ffigur wedi’i gynnwys.

## Ymchwil

- Ar hyn o bryd mae 5513 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd cyhoeddus brys COVID-19, sy’n gynnydd o 42 yn y 7 diwrnod diwethaf.

## Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

- Mae cyfran y galwadau i GIG 111 a Galw Iechyd Cymru yn ymwneud â symptomau COVID-19 posibl wedi cynyddu.

- Gwelwyd brig yn nifer y galwadau am ambiwlans am resymau a allai fod yn gysylltiedig â COVID-19 ym mis Ebrill ond maent wedi syrthio ac yn sefydlog erbyn hyn. Mae derbyniadau i'r ysbyty a'r Unedau Gofal Dwys yn isel ac yn sefydlog.

- Mae nifer yr achosion sy'n benodol i grwpiau oedran bellach ar eu huchaf yn y rhai iau na 50 oed.

- Mae achosion diweddar wedi cynnwys teithwyr yn dychwelyd o wledydd y tu allan i'r DU a hefyd trosglwyddiad lleol mewn gweithleoedd ac o fewn rhwydweithiau cymdeithasol.

- Mae’r brif elfen gweithgarwch diweddar wedi bod yng Nghaerffili, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, er bod tueddiadau cynyddol wedi’u nodi mewn awdurdodau lleol eraill.

- Mae 1 i 10 digwyddiad newydd yn parhau i gael eu hadrodd bob wythnos, mewn cartrefi gofal preswyl yn bennaf, ond gyda chynnydd diweddar mewn lleoliadau eraill gan gynnwys ysgolion a chlystyrau ymhlith teulu a ffrindiau ac mewn gweithleoedd.


- Mae mwy o weithgarwch yng Nghaerffili, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf gyda safleoedd profi cymunedol symudol wedi'u sefydlu'n ddiweddar a chyfyngiadau ar waith yng Nghaerffili a Rhondda Cynon Taf ar hyn o bryd.


## Dangosfwrdd Data’r GIG


- Diweddarwyd data ysbytai ar 18/09/2020


UNEDAU GOFAL DWYS LEFEL 3

- O blith y cyfanswm o 133 o gleifion mewn Unedau Gofal Dwys lefel 3 yng Nghymru (sydd wedi gostwng o 151 ers yr adroddiad blaenorol):
    - Cadarnhawyd bod 4 yn gleifion COVID (2 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, 1 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac 1 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)
    - Amheuir bod 7 yn gleifion COVID (4 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, 1 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac 1 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg)
- O blith y byrddau iechyd sydd ag Unedau Gofal Dwys lefel 3:
    - Mae 88.9% o welyau BIPCTM yn cael eu defnyddio (gyda 2 glaf yr amheuir sydd â COVID a 2 glaf wedi'u cadarnhau)
    - Mae 55.2% o welyau BIPBA yn cael eu defnyddio (gydag 1 claf COVID wedi'i gadarnhau)
    - Mae 53.2% o welyau BIPCF yn cael eu defnyddio (gydag 1 claf yr amheuir sydd â COVID ac 1 claf COVID wedi'i gadarnhau)
    - Mae 46.9% o welyau BIPAB yn cael eu defnyddio (gyda 4 claf COVID wedi'u cadarnhau)
    - Mae 46.9% o welyau BIPBC yn cael eu defnyddio (gyda 0 claf COVID)
    - Mae 40.6% o welyau BIPHD yn cael eu defnyddio (gyda 0 claf COVID)






\

**Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)**

- Os yw'n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws yn y gwahanol gyngor a roddir.

